'Together With Jesus We Love and Learn'

Ysgol Gynradd Gatholig Y Sant Fransis

**Priory Road**
**Aberdaugleddau**
**Sir Benfro**
**SA73 2EE**
**Ffôn 01646 694830**
**E-bost** **head.stfrancis@pembrokeshire.gov.uk**
ESGOBAETH MENEFIA

Pennaeth: Mrs. S. Roberts

Dirprwy Bennaeth: Miss S. Mansfield

17 Mai 2017

**At yr holl ymgyngoreion statudol**

Annwyl Syr / Madam,

**Newid Rheoledig i Ysgol Gynradd Gatholig Y Sant Fransis**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod corff llywodraethu'r ysgol wedi ystyried y cynnig cyhoeddedig canlynol yn ei gyfarfod allweddol a gynhaliwyd ar 11 Mai 2017:

**'Bod yr ystod oedran y gellir eu derbyn yn cael ei ddiwygio o 4-11 oed i 3-11 oed er mwyn effeithio ar dderbyniad disgyblion meithrin.'**

Penderfynodd y corff llywodraethu dderbyn y cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Cyn dod i benderfyniad, ystyriodd y corff llywodraethu'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o ymgynghoriad statudol; ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cynnig. Ystyriodd y corff llywodraethu ffactorau amrywiol hefyd wrth benderfynu, sef:

a) Ansawdd a safonau addysg
b) Yr angen am lefydd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion
c) Adnoddau Addysg a goblygiadau ariannol eraill
d) Ffactorau cyffredinol eraill:
    - Pa effaith fydd cynigion yn ei gael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd;
    - Unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rheiny a ganfyddir trwy asesu'r effaith ar gydraddoldeb;
    - Pa un ai a yw'r ysgol dan sylw yn destun diddordebau ymddiriedolaeth neu elusennol;
e) Ffactorau penodol i gynigion i ychwanegu neu ddiddymu dosbarthiadau meithrin
    - Safon addysg meithrin a digonolrwydd adeiladau a chyfleusterau a gynigir, yn y dosbarth a thu allan, a hyfywedd unrhyw ysgol sy'n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin;
    - Pa un ai a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;

- Lefelau'r galw am fathau penodol o addysg meithrin, ee. Cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth gyda nodwedd grefyddol;
- Effaith y cynnig ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;
- Faint fydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar gyda gwasanaethau gofal plant neu'n gyson ag agwedd integredig.

f) Ffactorau a ystyriwyd wrth gymeradwyo/bennu cynigion trefniadaeth ysgol:
- Pa un ai a oedd unrhyw gynigion perthnasol eraill;
- Sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi ei gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod);
- Sicrhau bod y cynnig wedi ei gyhoeddi yn unol â'r Cod a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol;
- Bod ystyriaeth wedi ei roi i ddogfen yr ymgynghoriad ac adroddiad yr ymgynghoriad;
- Bod ystyriaeth wedi ei roi i unrhyw wrthwynebiadau ac adroddiad y gwrthwynebiadau ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad yn cefnogi'r cynigion (os yw'n berthnasol).

Bydd gweithrediad y cynnig yn cyfeirio at faterion allweddol a ganfuwyd yn yr achos am newid, sef:
- Galluogi rheini i fynegi eu bod yn dewis Ysgol Gynradd Gatholig y Sant Fransis yn gynharach, gan greu cyfle i leddfu'r pwysau ar leoedd yn Ysgol Y Meads;
- Darparu darpariaeth Meithrin yn seiliedig ar ffydd yn ardal Aberdaugleddau a thrwy hynny gynyddu'r dewis ar i rieni.

Yr eiddoch yn gywir

David Burgoyne.

David Burgoyne
Cadeirydd y llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Gatholig y Sant Fransis